


OpenAthens GIG Cymru

Byddwch yn gallu defnyddio'ch cyfeiriad ebost GIG Cymru a chyfrinair (Nadex) i gael mynediad at adnoddau ar-lein o'r **8fed Gorffennaf 2020**, heb fod angen enw defnyddiwr na chyfrinair OpenAthens. Os nad oes gennych ebost na chyfrinair GIG Cymru, gallwch barhau i fewngofnodi gyda'ch manylion arferol ar gyfer OpenAthens. **Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â'r llyfrgell.**

Sut i fewngofnodi



Pan fyddwch yn mewngofnodi i adnodd ar-lein byddwch yn gweld dau opsiwn.

Mae'r opsiwn newydd, cyfeiriad **ebost GIG Cymru**, yn caniatáu i unrhyw un sydd â chyfeiriad ebost GIG Cymru fewngofnodi. Gallwch ddefnyddio'r cyfeiriad ebost a'r cyfrinair (Nadex) rydych yn eu defnyddio i fewngofnodi i ddyfeisiau neu systemau GIG Cymru.

Ar ôl mewngofnodi, byddwch yn gallu cael mynediad at bopeth heb orfod mewngofnodi eto am weddill y sesiwn, hyd yn oed oddi ar y safle, heblaw am rai achosion lle mae adnoddau ar gael ar rwydwaith GIG Cymru yn unig, megis iRefer. Os nad oes gennych gyfeiriad ebost GIG Cymru, bydd yr opsiwn **OpenAthens presennol** yn parhau i weithio.

Defnyddwyr Presennol - mynediad drwy ebost GIG Cymru

Os oes gennych gyfrif Open Athens GIG Cymru gallwch barhau i'w ddefnyddio i fewngofnodi a defnyddio adnoddau ar-lein drwy'r opsiwn Open Athens. Fel arall gallwch ddefnyddio'ch cyfeiriad ebost GIG Cymru a'ch cyfrinair (Nadex). Fodd bynnag, nodwch y bydd gwneud hynny yn cynhyrchu cyfrif OpenAthens **newydd** ar eich cyfer, a gallai hyn effeithio ar unrhyw gyfrifon personol neu leoliadau sydd ar waith.

Cyfrifon wedi'u personoli

Mae cyfrifon OpenAthens yn gysylltiedig â chyfrifon wedi'u personoli â BMJ ac Elsevier. Mae hyn yn golygu y bydd yn rhaid i'r defnyddwyr hynny sy'n dewis newid i'r dull mynediad newydd ac sydd â chyfrifon wedi'u personoli gydag unrhyw un o'r adnoddau canlynol gan y cyflenwyr hyn (ClinicalKey, Nursing ClinicalKey, BMJ Best Practice a BMJ Learning) gymryd rhai camau byr i ail-gysylltu'r cyfrifon hynny â'r opsiwn newydd i fewngofnodi. Cysylltwch â'r llyfrgell am fanylion.

Defnyddwyr Newydd

Dewiswch opsiwn cyfeiriad ebost GIG Cymru a nodwch eich cyfeiriad ebost GIG Cymru a chyfrinair (Nadex) (fel y byddwch yn ei wneud wrth fewngofnodi i Office 365 / rhwydwaith GIG Cymru) i gael mynediad at yr e-adnoddau a ddarperir gan e-Llyfrgell GIG Cymru, neu eich Llyfrgell GIG Cymru leol. I gael gafael ar erthyglau cyfnodolion testun llawn neu e-lyfrau bydd hefyd angen i chi fod yn aelod o Lyfrgell Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre.

Efallai na fydd gan rai defnyddwyr gyfeiriad ebost GIG Cymru ond gallant hunan-gofrestru ar gyfer cyfrif OpenAthens yma:

<https://register.openathens.net/wales.nhs.uk/register?lang=cy>

